CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
A GYNHALIWYD AR 14 RHAGFYR 2016

Y Maer, y Cyngh Wyn Thomas, fu'n cadeirio'r cyfarfod misol o Gyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, nos Fercher y 14eg o Ragfyr 2016 am 7.30 pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Dr Richard Edwards, Anthony Jenkins, Philip Grice, Peter Hughes Griffiths, Angharad Jones Leefe, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Kenneth Lloyd, Dr Ioan Matthews, Emlyn Schiavone, Wyn Thomas, a Barry Williams

393. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Dorothy Bere, Dr Dewi Evans a Dr Baba Gana

394. DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cyngh Alun Lenny bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 10(a) ar yr agenda o adroddiad Clerc y Dref a'r cais cynllunio ychwanegol a gyflwynwyd gerbron y cyfarfod ar y noson, fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

Dywedodd y Cynghorwyr Dr Richard Edwards ac Emlyn Schiavone bod ganddynt fuddiant yn eitem rhif 9(c) ac eitem rhif 9(d) ar yr agenda, o'r Pwyllgor Cyllid fel Ymddiriedolwyr Canolfan Deulu Tŷ Ni – Tŷ Hapus, a'r Cyngh Emlyn Schiavone fel aelod o Fwrdd Prosiect Ieuenctid Dr Mz.

395. CWESTIYNAU

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

396. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R CYNGOR A GYNHALIWYD AR 30 TACHWEDD 2016

Cynigiwyd gan y Cyngh Dr Richard Edwards, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 30ain o Dachwedd 2016 a'u derbyn yn gofnod cywir.

397. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 348: Trwyddedu - Tafarn y Poplars, Tre Ioan - Gwrandawiad

Mynychodd y Cyngh Phillip Grice y gwrandawiad ar ran y Cyngor Tref, a phenderfynodd peidio â gwrthwynebu'r cais gan y trwyddedai.

NODODD yr Aelodau yr adroddiad llafar a chytuno â'r camau a gymerwyd yn y gwrandawiad.

398. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL A GYNHALIWYD AR 8 RHAGFYR 2016

Cynigiwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Phillip Grice, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar yr 8fed o Ragfyr 2016 a'u derbyn yn gofnod cywir.

399. YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL CANLYNOL NEU FATERION ERAILL OEDD YN CODI

Cynigiwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Phillip Grice, a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhellion canlynol a wnaed gan y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol:

(a) Cofnod 370 (i): Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio i Ddatblygu 113-117 Heol y Prior.

Byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried o dan adroddiad Clerc y Dref (gweler 402 isod).

(a) Cofnod 374: Llefydd Chwarae i Blant - Allt Ioan a Maes y Wennol

ARGYMHELLWYD bod y Cyngor Tref yn cytuno i drosglwyddo prydlesi'r llefydd chwarae yn Allt Ioan ac ym Maes y Wennol.

(b) Cofnod 379: Gŵyl Dewi 2017

ARGYMHELLWYD bod yr orymdaith yn cael defnyddio Parc Caerfyrddin fel man ymgynnull cyn gorymdeithio ar hyd y llwybr a nodwyd.

Cofnod 317: Cynllun Blwch Teganau y Nadolig

Dywedodd y Cyngh Peter Hughes Griffiths bod y cynllun uchod wedi bod yn llwyddiant ysgubol eleni.

400. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R PWYLLGOR CYLLID A GYNHALIWYD AR 8 RHAGFYR 2016

Cynigiwyd gan y Cyngh Kenneth Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Emlyn Schiavone, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar yr 8fed o Ragfyr 2016 a'u derbyn yn gofnod cywir.

401. YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CYLLID CANLYNOL NEU FATERION ERAILL SY'N CODI

Cynigiwyd gan y Cyngh Kenneth Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Emlyn Schiavone, a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhellion canlynol a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid:

(a) Cofnod 389: Cyllideb Ddrafft 2017/18

ARGYMHELLODD yr Aelodau i ohirio trafodaeth bellach ar gyllideb y flwyddyn nesaf tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid.

(b) Cofnod 390: Syrcas Chipperfield – Diffyg Talu.

ARGYMHELLODD yr Aelodau bod y Cyngor Tref yn dilyn camau drwy'r llys hawliadau bychain i adennill y ddyled.

(c) Cofnod 391: Prosiect Ieuenctid Dr Mz – Ariannu

ARGYMHELLODD yr Aelodau bod y Cyngor yn aros am fwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad ar ariannu pellach.

(d) Cofnod 392: Llythyr o Ddiolch a Chais am Gymorth Ariannol oddi wrth Canolfan Deulu Caerfyrddin - Tŷ Ni a Tŷ Hapus.

ARGYMHELLODD yr Aelodau rhoi swm o £1,500.00 i Tŷ Ni a Tŷ Hapus a bod y swm hwn yn cael ei dalu allan o gronfa wrth gefn y Cyngor Tref. Hefyd bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o'r broses cyn hir o ymgynghori ar gyllideb 2017/18 yn mynegi pryder bod cynghorau lleol yn gorfod defnyddio'u harian a'u cronfeydd wrth gefn i ariannu gwasanaethau hanfodol y dylai'r Cyngor Sir fod yn eu darparu.

402. CYNLLUNIO

O ran yr hysbysiadau cynllunio a ddosbarthwyd fel Atodiad 2 i'r agenda, cynigiwyd gan y Cyngh Philip Grice, eiliwyd gan y Cyngh Dr Ioan Matthews, a **PHENDERFYNWYD**:

(a) W/34826: Tir ar Waun y Groes, Heol Llysonnen, Llan-llwch – Adeiladu parlwr angladdau a garej cerbydau - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

(b) W/34827: Maes Parcio ar Heol yr Hen Orsaf - dileu amodau rhifau 3,4,6,7,8,9,11,12 ac 14 o W/07909 - **GWRTHWYNEBIAD**. Yn dilyn trafodaeth roedd yr Aelodau yn cefnogi bod y tir yn parhau i gael ei ddefnyddio fel maes parcio ac yn argymell bod pob un o'r amodau presennol yn parhau mewn grym ar y sail bod hynny'n lleihau sŵn ac amharu yn yr ardal - a achosir gan draffig trymach a charafanau a hefyd yr oriau ehangach o weithredu. Roedd llythyr i'w anfon at y Cyngor Sir yn amlinellu pryderon y Cyngor Tref.

(c) W/34828: Get Connected, 11 Heol Awst – gwaredu'r ffrynt siop gwydr dwbl ac yn ei le gosod ffrynt siop pren a gwydr sengl - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

Cyflwynwyd cais cynllunio ychwanegol gerbron ar y noson :

(d) W/34846: Maes y Sioe, Nant-y-ci – newid defnydd dros-dro o safle prif gontractwyr yn ystod y gwaith o adeiladu Cynllun Cyswllt Coedwig Brechfa arfaethedig sydd ar hyn o bryd yn destun cais

DCO (Swyddog Cwynion Dynodedig). Y bwriad yw defnyddio'r safle presennol ar faes y sioe fel y lleoliad ar gyfer derbyn, storio a dosbarthu deunyddiau ac offer. **DIM GWRTHWYNEBIAD** (cytunodd pawb heblaw am un yn atal ei bleidlais).

(e) Cyflwynodd Clerc y Dref adroddiad ar yr Ymgynghori Cyn-ymgeisio ar ddatblygu 113-117 Heol y Prior.

Cafwyd trafodaeth, ac er bod datblygu'r ardal hon yn y modd hwn a chodi tai ychwanegol yng Nghaerfyrddin i'w groesawu, cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at gwmni cynllunio JCR i fynegi pryder yr Aelodau am yr effaith y byddai'r cynllun yn ei gael ar gynyddu traffig yn yr ardal hon a'r angen am ystyried llydanu'r ffordd ar Heol y Prior i wneud y ffordd yn fwy diogel.

403. PRIFFYRDD

Nid oedd unrhyw faterion priffyrdd wedi codi.

404. TRWYDDEDU

Nid oedd unrhyw faterion trwyddedu wedi codi.

405. CYHOEDDI CANLLAWIAU AR DDEFNYDDIO YN BRIODOL Y TREFNIADAU ORIAU HEB EU GWARANTU MEWN GWASANAETHAU CYHOEDDUS DATGANOLEDIG YNG NGHYMRU

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

406. FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

407. YMGYNGHORI AR ARWEINIAD ARFARNU TRAFNIDIAETH CYMRU 2017

NODWYD adroddiad Clerc y Dref**.**

408. YMGYNGHORI AR NEWID ENW'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL

NODWYD adroddiad Clerc y Dref**.**

409. LLYTHYR O WERTHFAWROGIAD

NODODD yr Aelodau bod llythyr o werthfawrogiad wedi dod i law oddi wrth Shelter Cymru am rodd y Cyngor o £100.

410. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer sylw'r Aelodau at ei adroddiad (Atodiad 4 i'r agenda) a **NODWYD**.

411. ADRODDIADAU GAN GYNGHORWYR FEL CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

Roedd y Cyngh Emlyn Schiavone wedi mynychu parti yn Tŷ Hapus a Tŷ Ni.

Roedd y Cyngh Dr Richard Edwards wedi mynychu cyngerdd a pharti yn Ysgol Waun Dew ac yn Ysgol Myrddin.

Roedd y Cyngh Barry Williams wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda a chyfarfod yn Ysgol Rhyd-y-gors.

Roedd y Cyngh Anthony Jenkins wedi mynychu cyngerdd ysgol a pharti yn Ysgol Myrddin, a Miss Helen Griffiths oedd cadeirydd y llywodraethwyr erbyn hyn. Hefyd cyfeiriodd y Cyngh Jenkins at y ffaith mai'r Parchedig Ganon Joanna Penberthy oedd y fenyw gyntaf erioed i'w phenodi yn Esgob Tyddewi, a gwahoddwyd yr Aelodau i fynychu'r gwasanaeth hanesyddol i'w gynnal yn Eglwys San Pedr fis Ionawr.

Roedd y Cyngh Dr Ioan Matthews wedi mynychu Ffair Nadolig Ysgol y Dderwen.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.26 pm